**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2024

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Mark,

Rwy'n ysgrifennu atoch wedi i ni ystyried eich tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar 11 Ionawr 2024. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth am nifer o bwyntiau:

Er ein bod yn falch o gael y papur a ddarparwyd gennych, mae'r wybodaeth yn disgyn yn sylweddol is na'r safon rydym yn ei ddisgwyl. Mae anghysonderau mawr yn y dystiolaeth wedi ein hatal rhag ystyried y wybodaeth gydag unrhyw hyder. Nid ydym yn glir faint yw dyraniadau'r gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn peri pryder mawr i ni fel Pwyllgor.

Roedd ffigurau a gynhwyswyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023 yn dangos y byddai £8.383 miliwn yn cael ei ddyrannu i Linell Wariant y Gyllideb ("BEL") Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2024-25. Mae hyn wedi'i ddiwygio i lawr, gan fod arbedion pellach o £290,000 wedi'u nodi, a throsglwyddwyd £350,000 i'r Prif Grŵp Gwariant ("MEG") Cyfiawnder Cymdeithasol. Y ffigur diwygiedig yw £7.743 miliwn;  sy'n ostyngiad o 8.3 y cant ers 2023-24.

Os ydynt yn gywir, fodd bynnag, nid yw'r ffigurau pennawd diwygiedig hyn yn cyfateb i ddadansoddiad gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol a gynhwysir yn eich llythyr.  Yn ôl ein cyfrifo, a chan dybio bod yr holl gostau a amlinellir yn y dadansoddiad yn dod o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol, byddai'r symiau a restrir i gyflawni rhai rhannau o'r Strategaeth Ryngwladol yn arwain at orwariant yn 2024-25:

| Disgrifiad o'r gyllideb | Dyraniad Drafft y Gyllideb |
|---|---|
| Gwaith Ymgysylltu Rhyngwladol | 3,059,000 |

| | |
|---|---|
| Swyddfeydd Rhyngwladol | 5,434,000 |
| **Cyfanswm** | **8,493,000** |

O ystyried bod £7.743 miliwn wedi’i ddyrannu ar gyfer 2024-25, byddai hyn yn golygu bod gorwariant o £750,000 neu 9.7 y cant. Nid yw’r cyfrifo hwn yn cynnwys symiau eraill y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth ysgrifenedig ac mewn mannau eraill, megis cyllid ar gyfer academi heddwch Cymru, Academi Heddwch (rhestrir hyn fel £140,918 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol). Byddem yn gwneud cais’ i chi e’luro'r anghysonderau hyn ar frys.

Rydym hefyd yn pryderu am y diffyg manylion yn ymwneud â throsglwyddo £350,’00 i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol. N’d yw'r trosglwyddiad ’wn o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwla’ol i'r gyllideb Datblygu Rhyngwladol yn ailymddangos ar ôl iddo ymddangos fel didyniad yn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn eich tystiolaeth ysgrifenedig. Cymhlethir y mater hwn ymhellach gan y ffaith n’d yw'r‘BEL 'Datblygu Rhyngw’adol', y cyfeirir ato trwy gydol eich tystiolaeth ysgrifenedig, yn ymddangos yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, fel gyda chyllidebau blaenorol. Mae BEL ar g’fer 'Datblygu Cynaliadwy Rhyngw’adol' ym MEG Cyfiawnder Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft 2024-25, a’r ffigur yw £1.050 miliwn. Mae hyn yn cyfa’eb i'r ffigur a roddir ar g’fer 'Datblygu Rhyngw’adol' yn eich tystiolaeth i ni. N’d yw'r ddau derm yn gyfnewidiol, fodd bynnag, ac nid yw'r trosglwyddiad o £350,000 yn ailymddangos yn y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol, beth bynnag. Byddem yn croesawu esboniad o ran pam nad yw'r trosglwyddiad hwn yn ailymddangos yn y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r ddau fater hyn yn cymhlethu ein pryderon blaenorol ynghylch y diffyg eglurder a gawsom o ran Cyllidebau Drafft blaenorol. Mae’n anffodus nad ydych wedi cytuno i roi tystiolaeth lafar i’n Pwyllgor, fel y gallwn archwilio’r anghysonderau hyn gyda chi. Credwn y byddai darparu gwybodaeth glir, gywir ac amserol, ynghyd â sesiwn dystiolaeth lafar, yn datrys y rhan fwyaf o'r materion hyn. Er mwyn cywiro'r anghysonderau hyn, byddem yn gofyn i chi ddod i gyfarfod y Pwyllgor cyn diwedd y broses graffu ar gyfer y Gyllideb Ddrafft i drafod y materion hyn. Os nad yw hynny'n bosibl, byddem yn gofyn i chi ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor cyn i’ch tymor fel Prif Weinidog ddod i ben.

Mae cais am wybodaeth ychwanegol wedi'i amlinellu yn yr Atodiad i’r llythyr hwn.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 24 Ionawr 2024 fan bellaf.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Gwybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i ystyried Cyllideb Ddrafft 2024-25

Yn ogystal â'r wybodaeth a amlinellir yn y llythyr, hoffem ofyn am y canlynol:

- Esboniad o'r anghysondeb o £750,000 fel yr amlinellir;
- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol;
- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynllunnir ar gyfer 2024-25 yn erbyn 2023-24;
- Gwybodaeth am yr hyn a ymddengys fel cynnydd yn y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol ar gyfer 2024-25, gan gynnwys o ble daeth yr arian hwn, pa weithgareddau a chanlyniadau y bydd hyn yn eu cyflawni;
- Eglurhad o'r holl wariant a nodir yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys prosiectau fel yr Academi Heddwch;
- Gwybodaeth am sut rydych chi wedi blaenoriaethu eich gwariant gan gynnwys pa arbedion rydych chi wedi'u canfod (a'r rhesymeg dros wneud hynny);
- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i chi eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod;
- O ran gofynion cyfranogiad ac ariannu partneriaid strategol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol :
    - Cadarnhad o ba gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid strategol wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft, a chyn ei chyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2023;

    - Cynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru os yw partneriaid strategol yn adrodd yn C1 nad yw'r Gyllideb Ddrafft ostyngol yn ddigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Strategaeth Ryngwladol.

- Dadansoddiad o'r gwariant a gynlluniwyd ar gysylltiadau blaenoriaeth a nodir yn y Strategaeth Ryngwladol ar gyfer 2024-25;

- Y rhesymeg dros ailenwi'r BEL Datblygu Rhyngwladol yn BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol, gan gynnwys pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i'r gwariant o dan y BEL hwn;

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunir o dan y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol;

- Pam nad yw'r trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i dalu costau Cymru ac Affrica yn ailymddangos fel trosglwyddiad sy'n dod i mewn ar Gyllideb Ddrafft 2024-25; a

- Rhestr o apeliadau brys a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ym mlwyddyn gyllideb 2023-24, o ble y daeth yr arian hwn, a chynlluniau cyfredol ar gyfer cymorth yn ymwneud â gwrthdaro byd-eang yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

- Gwybodaeth am ddigwyddiadau mawr/rhyngwladol, gan gynnwys dyraniadau cyllideb penodol ar gyfer 2023-24, a manylion unrhyw ddigwyddiadau a gynllunnir a'r gwariant cyfredol a gynllunnir ar gyfer 2024-25.

Senedd Cymru
Welsh Parliament